Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 26.10.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# TRETH: Dyddiadau cau Hunanasesiad Cyllid a Thollau EM

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni treth Hunanasesiad papur i Gyllid a Thollau EM (CThEM) ar gyfer y flwyddyn dreth 2020 i 2021 yw 31 Hydref 2021; dylid cwblhau ffurflenni ar-lein erbyn 31 Ionawr 2022. Eleni, bydd rhaid i gwsmeriaid hefyd ddatgan a gawsant unrhyw grantiau neu daliadau drwy gynlluniau cymorth COVID-19 hyd at 5 Ebrill 2021, gan fod y rhain yn drethadwy. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/amser-i-baratoi-ar-gyfer-hunanasesiad

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth y DU ar:

https://bit.ly/30SsXac

# IECHYD & DIOGELWCH: Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) – Amddiffyn y rhai sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain

Dylai cyflogwyr ddarparu hyfforddiant, goruchwyliaeth, monitro a chefnogaeth i'r rheini sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain, a all fod mewn mwy o berygl o niwed oherwydd efallai na fydd ganddynt unrhyw un i'w helpu neu i'w cefnogi os aiff pethau o chwith. Mae'r HSE wedi cynhyrchu nifer o adnoddau defnyddiol:

- Taflen – 'Protecting lone workers: How to manage the risks of working alone': https://www.hse.gov.uk/pubns/indg73.htm

- Adran ar wefan HSE: https://www.hse.gov.uk/lone-working/worker/index.htm

- Fidio yn nodi'r cyngor allweddol: https://bit.ly/3vMqn0I

# BWYD A DIOD: Gweithdai a Dosbarthiadau Meistr

Mae Sgiliau Bwyd Cymru yn cynnig nifer o gyrsiau rhithwir am ddim ar gyfer busnesau sy'n cyrchu, gweini a gwerthu bwyd Cymreig:

- 2 Tachwedd 2021 11:00am: Gweithdy Te Prynhawn Cymreig
- 4 Tachwedd 2021 11:00am: Gweithdy Steilio a Ffotograffiaeth Bwyd

> - 10 Tachwedd 2021 11:00am: Gweithdy Brecwast Cymreig
> - 11 Tachwedd 2021 11:00am: Gweithdy Gwneud Gweini yn Haws
> - 18 Tachwedd 2021 11:00am: Gweithdy Creu Profiad Bwyta Lleol Dilys

Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3Bm3LWo

## HYRWYDDO: Hyrwyddwch eich busnes i 6,000+ o weithwyr Cyngor Gwynedd

Mae dros 200 o fusnesau yn barod yn hyrwyddo eu hunain i 6,000+ o weithwyr Cyngor Gwynedd trwy Gynllun Hybu Busnesau Lleol y Cyngor. Gall busnesau sy'n rhan o'r cynllun lleol hefyd ymuno â chynllun cenedlaethol, sydd â dros 375,000 o aelodau.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Meinir Griffiths:

Ffôn: 01286 679103 neu 07920331962
E-bost: MeinirGriffiths@gwynedd.llyw.cymru

## DYSGU: 'The Journey to Net Zero' – cynhadledd rhithwir FSB 2 Tachwedd 2021

Gyda sgyrsiau hinsawdd COP26 yn digwydd yn ddiweddarach eleni, bydd y gynhadledd rhithwir FSB yma yn edrych ar y rôl sylweddol y mae busnesau bach yn ei chwarae wrth drosglwyddo i Net Zero. I ddysgu mwy, ewch i:

https://bit.ly/3CGFL0W

## DYSGU: Gweminarau Cyflymu Cymru i Fusnesau – Sicrhau bod pobl yn gallu dod o hyd i chi ar-lein | SEO

Dysgwch gyfrinachau Optimeiddio Peiriannau Chwilio trwy ymuno â weminar am ddim Cyflymu Cymru i Fusnesau. Gall busnesau cymwys hefyd dderbyn cefnogaeth 1:1 am ddim ar ôl mynychu'r weminar. Mae dewis o weminarau ar gael ym mis Tachwedd – i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3EedlfC

Am wybodaeth am y 3 pheth y gallwch chi eu gwneud ar hyn o bryd i wella SEO, ewch i:

https://bit.ly/3vNk6lO

# COVID-19: Rhifau coronafeirws Gwynedd

Mae nifer yr achosion COVID-19 yng Ngwynedd wedi bod yn tyfu. Parhewch i chwarae eich rhan i gadw ein cymunedau'n ddiogel trwy ddiweddaru'ch asesiad risg coronafirws, sy'n ofyniad cyfreithiol, a gweithredu'r holl fesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â choronafirws a'i ledaenu. Dylid rhoi sylw arbennig i:

- Ymbellhau cymdeithasol, yn enwedig mewn ardaloedd prysur
- Awyru da
- Hylendid dwylo da
- Gwisgo gorchuddion wyneb – mannau cyhoeddus dan do, gan gynnwys siopau, trafnidiaeth cyhoeddus a lleoliadau gofal iechyd

Am y cyngor diweddaraf, ewch i:

- Canllawiau ar baratoi asesiad risg: https://llyw.cymru/asesiad-risg-covid-19-eiddo-cyhoeddus-gweithleoedd

- Cardiau gweithredu mesurau rhesymol: https://llyw.cymru/cardiau-gweithredu-mesurau-rhesymol-ar-gyfer-busnesau-sefydliadau-coronafeirws

- Canllawiau rheoliad Pàs COVID: https://llyw.cymru/pas-covid-canllawiau-ar-gyfer-busnesau-digwyddiadau-html

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru